

BWEA Wales Renewable Energy Bulletin Issue 05 - May 2007

If you have not yet done so, please ensure that you subscribe to future electronic issues by visiting www.bwea.com/mail.

Election Result for Wind

The recently held Welsh Assembly elections demonstrated the public anxiety about climate change and the desire to take immediate action to reduce carbon emissions. The main political parties gave the climate and other environmental issues a high priority in their manifestos and the subject was keenly debated on the doorstep and in public meetings. However, candidates and parties sometimes failed to give their unequivocal support to onshore wind energy as the most viable clean energy technology in the face of concerted and uncompromising small-group opposition.

The election results demonstrated that these voices of discontent are really in the smallest of minorities. Two independent candidates standing on behalf of the anti-wind group South Wales Against Turbine Technology (SWATT) only managed to poll 0.4% of the total votes in the Mid and West, and South West regions. This is despite running a very negative campaign that involved distributing leaflets full of dubious information concerning wind energy.

BWEA is pleased that the vast majority of the public have seen through the constant whining and false claims of anti wind groups, and would like to remind the newly elected Assembly Members of their moral duty to support policies that will directly counter the effects of climate change.

Wind Myth Blown Away

One of the common myths about wind farms is their effect on house prices. As reported in the Western Mail on May 12th, research by the Royal Institute of Chartered Surveyors (RICS) and Oxford Brookes University shows this to be a myth with no clear relationship between the proximity of wind farms to homes and property prices. Cathy McLean, RICS Wales director, said, "Objections are often less about local concerns and more about wider ideological issues." More information can be found at www.bwea.com/media/news/070328.html

Wern Ddu Appeal hearing

A trio of Welsh wind farm developers who have combined their efforts look set to shortly present a proposal for over 100 MW in the identified Strategic Search Area 'A' in the Conwy/ Denbighshire area. Depending on the outcome of the recent public inquiry, first past the post may be Tegni's Wern Ddu, which has been in the system for over 7 years, and has had tremendous support from locals, who are very aware of the problems facing agriculture and other forms of business in the country, and see wind farms as a source of welcome financial contributions to the local economy.

Building on their strong community links, Tegni has an arrangement with the Urdd to allow schools from all parts of Wales to visit their wind farm in Llangwm, North Wales. At least 250 children visit each year, along with other interested parties, and charitable contributions have also been raised by people wanting a special tour up one of the turbines.

Huw Smallwood of Tegni commented "Renewables are for future generations, all the youngsters love the turbines, which only strengthens our resolve to succeed. It's time that our resolve was shared by local politicians who, through the issue of TAN8 now have the ideal opportunity to help facilitate a cleaner, greener future."




Huw Smallwood shows school children round Hafoty Ucha wind farm near Llangwm © Tegni

Progress towards TAN8 targets

The Welsh Assembly Government has set clear targets for renewable energy generation in Wales by the year 2010 and the Welsh Energy Bulletin monitors progress. No additional MW has been generated by onshore wind power since June 2006, meaning that Wales is 75% behind schedule.

Onshore Wind Energy – progress towards the TAN8 target adopted in July 2005



Contact Llywelyn Rhys, BWEA Wales Officer
t 07875 434 049
e llywelyn@bwea.com

BWEA Bwletin Ynni Adnewyddol Cymru Rhifyn 05 - Mai 2007

Os nad ydych wedi gwneud hynny eto, a fydddechystal â sicrhau eich bod yn tanystrifio i rifynnau electronig yn y dyfodol drwy fynd i www.bwea.com/mail.

Canlyniad Etholiad i Wynt

Fe wnaeth yr etholiadau a gynhaliwyd yn ddiweddar i Gynulliad Cymru ddangos pryder y cyhoedd ynglŷn â'r hinsawdd a'r dymuniad i weithredu'n syth i leihau gollyngiadau carbon deuocsid. Fe wnaeth y prif bleidiau gwleidyddol roi blaenoriaeth uchel i'r newid yn yr hinsawdd ac i faterion amgylcheddol eraill yn eu manifestos, ac fe fu dadlau brwd ar y pwnc ar drothwy drysau ac mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Fodd bynnag, fe wnaeth ymgeisywyr a phleidiau gwleidyddol weithiau fethu â rhoi'u cefnogaeth ddigamsyniol i ynni gwynt ar y tir, fel y dechnoleg ynni glân mwyaf ymarferol, yn wyneb gwrthwynebiad cydunol a digyfaddawd grwpiau bychain.

Fe wnaeth canlyniadau'r etholiad ddangos bod y lleisiau hyn o anniddigrwydd mewn gwirionedd yn y lleiafrifoedd lleiaf. Fe wnaeth dau ymgeisydd annibynnol a safodd ar ran y grŵp gwrth-wynt, De Cymru yn Erbyn Technoleg Dyrbin / South Wales Against Turbine Technology (SWATT), ond llwyddo i ennill 0.4% o gyfanswm y pleidleisiau yn rhanbarthau'r Canolbarth a Gorllewin, a De Orllewin Cymru. Yr oedd hyn er gwaethaf cynnal ymgyrch negyddol iawn, a oedd yn golygu dosbarthu taflenni yn llawn o wybodaeth amheus yn ymwneud ag ynni gwynt.

Y mae BWEA yn croesawu'r ffaith bod y mwyafrif llethol o'r cyhoedd wedi gweld drwy gwynfanau cyson a honiadau ffug grwpiau gwrth-wynt, ac fe fyddent yn hoffi atgoffa Aelodau'r Cynulliad sydd newydd eu hethol o'u dyletswydd foisol i gefnogi polisïau a fydd yn gwrthweithio'n uniongyrchol effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Chwythu Chwedl y Gwynt i Ffwrdd

Un o'r chwedlau cyffredin am ffermydd gwynt yw'u heffeithiau ar brisiau tai. Fel yr adroddwyd yn y Western Mail ar y 12fed o Fai, fe ddengys ymchwil gan Sefydliad Brenhinol y Syrffwyr Siartredig (RICS) a Phrifysgol Brookes Rhydychen mai chwedl yw hyn, heb unrhyw berthynas eglur rhwng agosrwydd ffermydd gwynt at gartrefi a phrisiau eiddo. Fe ddywedodd Cathy McLean, cyfarwyddwr RICS Cymru, "Y mae gwrthwynebiadau yn aml yn ymwneud llai â phryderon lleol ac yn ymwneud mwy â materion ideolegol ehangach." Gweler www.bwea.com/media/news/070328.html.

Gwrandawriad Apêl Wern Ddu

Y mae'n ymddangos bod triawd o ddatblygwyr fferm wynt yng Nghymru, sydd wedi cyfuno'u hymdrechion, ar fin cyflwyno cynigiad ar gyfer mwy na 100 MW yn Ardal Chwilio Strategol 'A' a nodwyd yn ardal Conwy / Sir Ddinbych.

Yn dibynnu ar ganlyniad yr ymchwiliad cyhoeddus diweddar, fe all mai'r cyntaf heibio i'r postyn fydd datblygiad Tegni yn Wern Ddu, sydd wedi bod yn y gyfundrefn ers dros saith mlynedd, ac sydd wedi cael cefnogaeth anhygoel gan bobl leol, sydd yn ymwybodol iawn o'r problemau sy'n wynebu amaethyddiaeth a mathau eraill o fusnes yn y wlad, ac sy'n gweld ffermydd gwynt fel ffynhonnell cyfraniadau ariannol i'w croesawu i'r economi lleol.


Gan adeiladu ar eu cysylltiadau cymunedol cryfion, y mae gan Tegni drefniant gyda'r Urdd i ganiatáu i ysgolion o bob cwr o Gymru ymweld â'u fferm wynt yn Llangwm, Gogledd Cymru. Y mae o leiaf 250 o blant yn ymweld bob blwyddyn, ynghyd ag eraill sydd â diddordeb, ac y mae cyfraniadau elusennol hefyd wedi'u codi gan bobl sy'n dymuno gwibdaith arbennig i fyny un o'r tyrbinau.

Fe wnaeth Huw Smallwood o Tegni fwrw'r sylwadaeth, "Y mae ffynonellau adnewyddadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, y mae'r bobl ifanc i gyd yn hoffi'r tyrbinau, sydd ond yn cryfhau'n penderfyniad i lwyddo. Y mae'n bryd i'n penderfyniad gael ei rannu gan wleidyddion lleol, sydd, drwy gyhoeddi TAN8, â'r cyfle delfrydol yn awr i gynorthwyo i hwyluso dyfodol gwyrddach, glanach."

Cynnydd tuag at dargedau TAN8

Y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi pennu targedau pendant ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru erbyn y flwyddyn 2010, ac y mae Bwletin Ynni Cymru yn cadw golwg ar gynnydd. Nid oes yna MW ychwanegol wedi'i gynhyrchu gan bŵer gwynt ar y tir ers mis Mehefin 2006, sy'n golygu bod Cymru yn 75% yn hwyr yn ôl yr amserlen.

Ynni Gwynt ar y Tir – cynnydd tuag at darged TAN8, a fabwysiadwyd ym mis Gorffennaf, 2005



Cysylltwch â Llywelyn Rhys, Swyddog Cymru BWEA

t 07875 434 049

e llywelyn@bwea.com